# Gwybodaeth Ychwanegol at Atebion Gweinidogion

## Gwybodaeth ychwanegol at gwestiwn atodol i OAQ22798, a gyhoeddwyd gan Edwina Hart, y Gweinidog Cyllid, ar 5 Mawrth 2003

**At Owen John Thomas:**

Yn ystod cwestiynau ar lywodraeth leol ar 5 Mawrth, holoch ynglŷn ag amseriad y Mesur tai o safbwynt trwyddedu tai amlfeddiannaeth.

Fel y gwyddoch efallai, y sefyllfa ar hyn o bryd o ran y Mesur tai arfaethedig yw y disgwylir i'r drafft cyntaf fod yn barod i ddechrau ymgynghori yn ei gylch ddiwedd y mis hwn. Mae'r mesur arfaethedig yn cynnwys trwyddedu gorfodol a dewisol i dai amlfeddiannaeth, trwyddedu detholus i dai nad ydynt yn dai amlfeddiannaeth yn y sector rhentu preifat, cyflwyno'r system drethu iechyd a diogelwch tai, cyflwyno pecynnau gwerthwyr, diwygio'r ddeddfwriaeth hawl i brynu ac ombwdsman tai cymdeithasol i Gymru.

Bydd y cynigion trwyddedu gorfodol a dewisol i dai amlfeddiannaeth, ynghyd â thrwyddedu detholus, yn delio â rhai o'r problemau mewn ardaloedd lle y mae myfyrwyr yn byw mewn nifer fawr o dai, a dylai fynd i'r afael â rhai o'r pryderon y cyfeiriwyd atynt gennych yn eich cwestiwn atodol.

Bu fy swyddogion tai mewn cyswllt rheolaeth â Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog i wneud yn siŵr fod y Mesur yn rhoi sylw digonol i'n gofynion ac yn adlewyrchu'r ffaith bod angen i'r Cynulliad lunio is-ddeddfwriaeth a fydd yn gweddu i anghenion penodol Cymru.

Disgwylir i'r Mesur gael ei gyflwyno ar ddechrau'r sesiwn seneddol nesaf yn yr hydref.

## Gwybodaeth ychwanegol at y ddadl ar ymateb y Llywodraeth i adroddiad blynyddol Comisiynydd Plant Cymru, a gyhoeddwyd gan Rhodri Morgan, y Prif Weinidog, ar 20 Mawrth 2003

**At Rosemary Butler:**

Yn ystod y ddadl ar adroddiad blynyddol Comisiynydd Plant Cymru, addewais ymateb ichi ynglŷn â chyllid ar gyfer disgyblion sy'n cael eu gwahardd o unedau eithrio, ar ôl ceisio cyngor oddi wrth y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes.

Wrth gyfeirio at unedau eithrio, tybiaf eich bod yn golygu unedau cyfeirio disgyblion. Yr ydym yn awyddus, am amryw o resymau, i'r awdurdodau lleol ddefnyddio'r rhain yn effeithlon ac nid fel rhywle i gael gwared disgyblion y mae'n anodd ymdopi â nhw. Mae adran benodol o'n canllawiau ar gymorth disgyblion ac allgáu cymdeithasol (cylchlythyr 3/99) yn delio â'r math hwn o ddarpariaeth. Yr oedd y canllawiau hyn yn pwysleisio'r dull gweithredu y dylai'r awdurdodau ei arddel. Dylai pob disgybl sy'n cael ei leoli mewn uned o'r fath gael cynllun addysg personol, a ddylai fod yn briodol i'w anghenion a, lle bo hynny'n bosibl, dylai anelu tuag at ei arwain yn ôl i addysg brif ffrwd.

Mae'r canllawiau yn ymgorffori'r egwyddor hollgwmpasog y dylai addysg amser llawn gael ei darparu i bob disgybl sy'n cael ei wahardd o fewn 15 diwrnod iddo gael ei wahardd. Yn nhermau cyllid, byddwn yn anghytuno nad oes unrhyw addysg yn bodoli i ddisgyblion sydd wedi cael eu gwahardd o unedau cyfeirio disgyblion. Mae gan yr awdurdodau addysg lleol ddyletswydd statudol i ddarparu addysg i'w holl ddisgyblion ac mae angen iddynt gynllunio'n effeithiol fel eu bod yn gallu gwneud hynny ar gyfer pob disgybl a gaiff ei wahardd, boed hynny drwy gyllid o grantiau penodol neu oddi mewn i'w darpariaeth addysg brif ffrwd.

Mae’r grantiau cynnal addysg a hyfforddiant yn ffynhonnell bwysig o gyllid penodol ar gyfer y maes hwn. Fel a ddywedais yn y ddadl, gwerth elfen y grantiau sy’n canolbwyntio ar faterion presenoldeb ac ymddygiad—gweithgaredd 5, mynd i’r afael ag anfantais gymdeithasol— yn 2002-03 oedd rhyw £11 miliwn.

Yr ydym yn y broses o adolygu’r rheoliadau a’r canllawiau ar waharddiadau fel rhan o adolygu’r holl ganllawiau ar gymorth disgyblion a chynhwysiant cymdeithasol. Gobeithiaf y byddwch yn achub ar y cyfle i gynnig eich sylwadau yn ystod y broses hon.